Eisteddfod Gadeiriol Abergorlech 2022

Ar ddydd Sadwrn 26ain o Dachwedd 2022 cynhaliwyd Eisteddfod Gadeiriol Capel Newydd Abergorlech. Braf oedd medru ailgydio yn y cystadlu unwaith eto a chroesawu pawb yn ôl i'r llwyfan wedi'r seibiant dros y blynyddoedd diwethaf. Beirniad yr adran adrodd a'r llenyddiaeth oedd Mrs Jane Altham-Watkins, Abertawe ac yn beirniadu'r adran gerdd oedd Mrs Siw Jones, Felinfach. Yn cyfeilio oedd Mr Jonathan Morgan, Y Tymbl. Diolch yn fawr iawn iddynt am eu gwaith diflino yn ystod y diwrnod. Llywydd anrhydeddus y dydd oedd Mr Rhythwyn Evans, Maesyradwy, Silian. Yn anffodus nid oedd yn medru bod yn bresennol, ond rhoddodd ei ferch Mrs Siw Jones anerchiad pwrpasol ar ei ran. Diolch yn fawr am ei rodd hael tuag at yr Eisteddfod.

Rhoddwyd y Gadair eleni gan Mr a Mrs Idwal a Helen Evans Trebwl, am ysgrifennu cerdd ar y testun 'Teithio'. Cyflwynwyd y gadair hardd o waith crefftus Idwal Evans ei hun yn ystod y seremoni i'r bardd buddugol, sef Mr Alun Tobias, yn enedigol o'r ardal, ond bellach yn byw yng Nghaerdydd. Rhoddwyd Tlws yr Ifanc gan Angharad a Rhys Francis a'r enillydd oedd Sara Jones, Ysgol Bro Teifi. Yn ennill tlysau y cystadleuwyr mwyaf addawol o dan 16 oed oedd Trystan Bryn Evans, Pumsaint (Adran Gerdd) a Beca Curry, Capel Dewi (Adran Adrodd).
Dymuna'r pwyllgor ddiolch yn fawr iawn i bawb a wnaeth gefnogi a chyfrannu tuag at yr Eisteddfod unwaith eto eleni.

Dyma enillwyr eraill yr Eisteddfod:

Adran Gerdd

Unawd dan 6

1. Ifan Morris, Llandysul
2. Tryfan Phillips, Talsarn

Unawd dan 8

1. Greta Jones, Caerfyrddin

Unawd dan 10

1. Iwan Thomas, Pontarddulais

Canu Emyn dan 12

1. Iwan Thomas, Pontarddulais

Unawd dan 16

1. Trystan Bryn Evans, Pumsaint

Canu Gwerin dan 16

1. Trystan Bryn Evans, Pumsaint
2. Iwan Thomas, Pontarddulais

Canu Piano neu Unrhyw offeryn cerdd dan 16

1. Beca Curry, Capel Dewi
2. Trystan Bryn Evans, Pumsaint

Canu Emyn dan 16

1. Trystan Bryn Evans, Pumsaint

Sgent ti Dalent

1. Sioned Howells, New Inn
2. Trystan Bryn Evans, Pumsaint

Her Unawd rhwng 16-30

1. Sioned Howells, New Inn

Canu Emyn rhwng 16-50

1. Sioned Howells, New Inn
2. Bethan Griffiths, Abergorlech

Cenwch i'm yr Hen Ganiadau

1. Gerwyn Rhys, Porthyrhyd

Her Unawd Agored

1. Sioned Howells, New Inn
2. Gerwyn Rhys, Porthyrhyd

<u>Adran Adrodd</u>

Adrodd dan 6

1. Ifan Morris, Llandysul
2. Tryfan Phillips, Talsarn

Adrodd dan 8

1. Greta Jones, Caerfyrddin

Adrodd dan 10

1. Betsi Mai, Rhydaman

Llawysgrifen dan 8

1. Ifan Morris, Llandysul

Llawysgrifen dan 12

1. Betsi Mai, Rhydaman,
2. Lynwen Evans, Pumsaint
3. Iwan Thomas, Pontarddulais

Darllen o'r ysgrythur dan 16

1. Trystan Bryn Evans, Pumsaint

Ateb 6 cwestiwn dan 16

1. Beca Curry, Capel Dewi
2. Trystan Bryn Evans, Pumsaint

Adrodd dan 16

1. Trystan Bryn Evans, Pumsaint
2. Beca Curry, Capel Dewi

Her Adroddiad rhwng 16-30

1. Sioned Howells, New Inn.

Perfformio Darn Digri

1. Glasnant Jenkins, Abergorlech

Her Adroddiad Agored

1. Bethan Griffiths, Abergorlech
2. Sioned Howells, New Inn
3. Maria Evans, Rhydargaeau

<u>Llenyddiaeth</u>

Tlws yr Ifanc

1. Sara Jones 2. Bronwen Thomas Cyd 3ydd. Jano Evans a Rebecca Rees (Ysgol Bro Teifi)

Brawddeg

1. Gaenor Mai Jones, Caerfyrddin

Englyn

1. John Thomas, Cwmann

Brysneges

1. Megan Richards, Aberaeron

Limrig

1. Megan Richards, Aberaeron